**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Archwilio Cymunedau

**Dyddiad y Cyfarfod:** 27th Hydref 2016

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus /Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol

**Awdur yr Adroddiad:** Rheolwr Risg Llifogydd

**Teitl:** Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd Sir Ddinbych

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Yn ddiweddar cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad cenedlaethol o'r enw: Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru. Mae gan yr adroddiad hwn oblygiadau i'r cyngor. Felly, mae'n teimlo'n amserol i friffio Aelodau am y goblygiadau hyn, ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I roi cyfle i'r Pwyllgor i ystyried a yw'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau fel Awdurdod Rheoli Risg Erydu Arfordirol a Llifogydd a chyflawni'r mesurau a'r amcanion a nodir yn y Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried a yw'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau fel Awdurdod Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol a chyflawni'r mesurau a'r amcanion a nodir yn y Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd.

## 4. Manylion yr Adroddiad

### 4.1 Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru

Ar 21 Gorffennaf 2016 cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad ar ei adolygiad o reoli risg llifogydd ac erydiad arfordirol yng Nghymru (dolen i wefan: https://www.wao.gov.uk/cy/newyddion/llywodraeth-cymrun-gwneud-cynnydd-gyda-rheoli-perygl-cynyddol-llifogydd-ac-erydu) Mae'r adroddiad wedi ei gynnwys fel Atodiad 1, ond y prif bwyntiau o ddiddordeb i'r Cyngor yw fel a ganlyn:

- Mae'r adroddiad yn ymdrin yn benodol gyda risg llifogydd ac erydiad arfordirol, er bod rhai o'r themâu a drafodwyd yn gyffredin i bob ffynhonnell o risg llifogydd.
- Mae diffyg gallu o fewn Llywodraeth Cymru a chynghorau wedi oedi cynnydd (mewn rhoi'r strategaethau cenedlaethol a lleol ar waith) ac yn bygwth tanseilio'r dull tymor hir i reoli'r risgiau o lifogydd ac erydu arfordirol.
- Mae'r adroddiad yn cyfeirio at y polisi Cynllun Rheoli Traethlin (CRhT) o adlinio rheoledig (neu encil), a oedd ym mhenawdau newyddion yn 2014 oherwydd materion yn Fairbourne, Gwynedd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r Cyngor

oherwydd bod y polisi CRhT ar gyfer arfordir Sir Ddinbych rhwng Prestatyn a ffin y sir â Sir y Fflint yn 'adlinio rheoledig'.

- Mae'r adroddiad yn cyfeirio at Raglen Rheoli Risg i'r Arfordir Llywodraeth Cymru o 2018/19 i 2020/21, sy'n cynnwys cyllid grant LlC 75% (a fenthycir gan yr awdurdod lleol a'i ad-dalu gan Lywodraeth Cymru yn ystod, dyweder, cyfnod o 25 mlynedd drwy'r Grant Cymorth Refeniw) a chyllid cyngor 25%.
- Mae'r adroddiad yn argymell gwell integreiddio rheoli risg llifogydd ac erydiad arfordirol ar lefel strategol, gan gyfeirio at ddeddfwriaeth cynllunio, yr amgylchedd a lles cymunedol newydd.
- Mae'r adroddiad yn cyfeirio at 'dywodlunio', a allai ddarparu dull tymor hir a chynaliadwy o reoli risg llifogydd arfordirol yn Sir Ddinbych. Mae'r Cyngor wedi meithrin perthynas waith dda gydag Ystâd y Goron yn hynny o beth ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint i ddatblygu strategaeth arfordirol rhwng Traeth Barkby a'r Parlwr Du, a fydd yn ystyried Tywodlunio fel un o ystod o opsiynau i reoli risg llifogydd arfordirol.

**4.2 Strategaeth Lleol Rheoli Risg Llifogydd**

Ar 5 Tachwedd 2014 gwnaeth y Gweinidog Cyfoeth Naturiol gymeradwyo Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Sir Ddinbych yn ffurfiol. Mae'r strategaeth wrth wraidd gweithgareddau'r Cyngor i reoli risg llifogydd yn y sir. Mae'r strategaeth yn nodi 31 o fesurau ac mae cynnydd da wedi'i wneud o ran cyflawni'r rhan fwyaf o'r rhain. Fodd bynnag, mae rhai gweithgareddau lle mae cynnydd wedi bod yn arafach na'r disgwyl, yn bennaf oherwydd diffyg adnoddau a'r angen i flaenoriaethu gweithgareddau penodol, er enghraifft, ymchwiliadau llifogydd. Mae diweddariad wedi ei gynnwys yn Atodiad 2.

**4.3 Cynlluniau Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol**

Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gael cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu nifer o gynlluniau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol.

**(i) Cynllun Amddiffynfa Arfordirol Dwyrain y Rhyl**

Darparodd Lywodraeth Cymru grant i'r Cyngor i benodi JBA Consulting i gynnal astudiaeth arfarnu prosiect i nodi opsiwn a ffefrir i leihau perygl llifogydd arfordirol yn nwyrain y Rhyl. Argymhellodd adroddiad JBA fod morglawdd ar y môr yn cael ei ddatblygu fel y dewis a ffefrir. Fodd bynnag, roedd y gwerthusiad economaidd a gynhaliwyd fel rhan o'r astudiaeth yn dangos bod yna opsiynau eraill gyda chostau a manteision tebyg. Yng ngoleuni hyn, mae LlC wedi gofyn i'r Cyngor i gynnal astudiaeth cludo gwaddod a fydd yn nodi effeithiau tymor hir ar erydu ar y traeth ar gyfer y gwahanol opsiynau. Bydd hyn yn sicrhau bod y dewis a gaiff ei symud ymlaen yn gost effeithiol ac yn gynaliadwy ac, yn bwysicaf oll, gymwys ar gyfer grant. Dangosodd yr adroddiad y gallai'r cynllun gostio cymaint â £22 miliwn, er bod hyn yn cynnwys elfen o 'duedd optimistiaeth'. Mae ffigwr mwy realistig yn ôl pob tebyg o gwmpas £15 miliwn, a bydd yn ofynnol i'r Cyngor gyfrannu 25%.

Mae'r Cyngor wedi cyflogi contractwr dylunio ac adeiladu, Balfour Beatty, drwy'r fframwaith caffael cenedlaethol Scape ac mae comisiwn dyluniad wedi ei ddyfarnu i JBA. Fel rhan o'r comisiwn, bydd JBA yn gweithio gyda'r Cyngor i ddatblygu strategaeth gyfathrebu a fydd yn sicrhau bod lefel briodol, gyson o ymgysylltu â'r cyhoedd yn cael ei chynnal trwy gydol gweddill y prosiect.

Mae cynllun Dwyrain y Rhyl wedi cynnwys rhai gweithiau uwch ar Gwrs Golff y Rhyl, gyda chymorth cyllid grant LlC. Bydd y gwaith hwn yn darparu diogelwch yn erbyn storm 1 mewn 50 mlynedd, a dylai fod wedi'i gwblhau erbyn Ebrill 2017 ar gost o tua £800,000.

**(ii) Wal Clwb Hwylio'r Rhyl**

Mae'r Cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais am grant LlC i gynnal astudiaeth arfarnu prosiect i nodi dewis a ffefrir i uwchraddio neu amnewid yr ased hwn, a ddylai hefyd leihau'r risg o lifogydd yn yr ardal sydd mewn perygl. Mae'r cynllun yn ffurfio rhan o Raglen Rheoli Risg Arfordirol LlC, a ddylai alluogi gwaith adeiladu i ddechrau yn 2018.

**(iii) Cynllun Rheoli Risg Llifogydd Llanelwy**

Mae'r Cyngor wedi derbyn cymeradwyaeth LlC ar gyfer y cynllun hwn i symud ymlaen i'r cam dylunio a datblygu. Gan fod y cynllun hwn yn gyfagos i Afon Elwy (prif afon), ac yng ngoleuni cynllun parhaus Cyfoeth Naturiol Cymru yn Llanelwy, mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a bydd yn defnyddio ymgynghorydd Cyfoeth Naturiol Cymru i fwrw ymlaen â'r cynllun. Bydd hyn yn darparu rhywfaint o effeithlonrwydd a bydd yn sicrhau bod y ddau gynllun yn gydnaws.

**(iv) Cynlluniau Rheoli Risg Llifogydd Dyserth a Llanbedr DC**

Mae'r Cyngor wedi derbyn cymeradwyaeth LlC ar gyfer y cynlluniau hyn i symud ymlaen i'r cam dylunio a datblygu. Mae contractwr dylunio ac adeiladu (Balfour Beatty) wedi ei benodi drwy fframwaith Scape ac mae tîm ymgynghorol (Opus/Waterco) hefyd wedi ei benodi.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae llifogydd yn gallu achosi ymyrraeth ddifrifol a pharhaus ar y cymunedau y mae'n effeithio arnynt. Mae deall a rheoli risg llifogydd lleol yn cefnogi blaenoriaeth y Cyngor i ddatblygu'r economi leol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd costau dan sylw, costau staff yn bennaf, wrth gyflawni'r amcanion a mesurau a nodwyd yn y Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol bod lefelau llawer mwy o sylweddol o gyllid i gefnogi'r elfen arian cyfatebol grant o'r cynlluniau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith ar Les?**

Mae rheoli risg llifogydd yn ei hanfod yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, bydd dull y Cyngor o drin rheoli risg llifogydd yn sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu harchwilio i wneud y mwyaf o'r effeithiau cadarnhaol hynny.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Strategaeth Lleol Rheoli Risg Llifogydd gyda'r Pwyllgor ar 25 Tachwedd 2013 ac eto ar 4 Rhagfyr 2014. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar y Strategaeth ddrafft ar ôl hynny. Ymgynghorwyd â'r Cabinet cyn cyflwyno'r Strategaeth ar gyfer cymeradwyaeth y Gweinidog. Darparwyd briff

gwybodaeth i'r Grŵp Buddsoddi Strategol ar 12 Ionawr 2016, a oedd yn amlinellu cynigion y Cyngor ar gyfer cynlluniau yn Niserth a Llanbedr DC.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae’r adroddiad yn nodi crynodeb ddefnyddiol o’r cynlluniau a’r ffynonellau cyllido, yn bennaf o grant allanol. Mae angen arian cyfatebol gan y cyngor ar gyfer rhai o’r cynlluniau. Mae’r mwyaf sylweddol yn ymwneud â chynllun Dwyrain y Rhyl, fodd bynnag, mae cyfran o hyn eisoes wedi cael ei gynnwys yng Nghynllun Cyfalaf presennol y Cyngor. Bydd angen adolygu’r sefyllfa drwy'r prosesau cymeradwyo arferol unwaith y bydd costau'r cynllun yn cael eu cadarnhau.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y prif risg sy'n gysylltiedig â rheoli risg llifogydd lleol, gan gynnwys rheoli erydiad arfordirol, yw oherwydd y diffyg posibl o adnoddau, boed yn gefnogaeth ariannol, gan gynnwys cymorth grant, neu aelodau o staff (cyfeirir at hyn yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru). Mae'r Cyngor wedi cynnal ymrwymiad cyson i ariannu prosiectau llifogydd ac arfordirol cyfalaf dros y 13 mlynedd diwethaf, ond mae cyllid refeniw wedi gostwng yn sylweddol ac mae dibyniaeth ar grant LlC i gefnogi cyflog y tîm risg llifogydd ar hyn o bryd (2.4 aelod o staff). Mae'n bwysig bod y Cyngor yn cydnabod y risg y gallai cyllid LlC cael ei dynnu'n ôl ac y byddai hyn yn arwain at ddiffyg ariannol o tua £90k y flwyddyn.

**11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

Rheoliadau Risg Llifogydd (1999), Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010).
Amlinellir pwerau archwilio o ran y mater hwn yn Adran 7 o gyfansoddiad y Cyngor.